# Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

| | |
|---|---|
| **Teitl / Darn o waith:** | Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Fyfyrwyr) (Cymru) 2017 a Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Gyrchfannau) (Gweithgareddau Rhagnodedig) (Cymru) 2017 |
| **Rhif SF / LF** **(lle bo'n berthnasol)** | MA(L)/ARD/0294/17<br>MA(L)/ARD/0480/17<br>MA(L)/ARD/0524/17 |
| **Enw'r Swyddog:** | Bethan Milton / Marian Jebb |
| **Adran:** | Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol – Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes |
| **Dyddiad:** | 9 Awst 2017 |
| Llofnod: | |

# Chwe Cham at Sylw Dyledus




## Cam 1. Beth yw'r darn o waith a'i amcan(ion)?

Cafodd Deddf Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth 2015 Gydsyniad Brenhinol ar 26 Mawrth 2015. Roedd y Ddeddf honno'n mewnosod darpariaethau newydd yn Neddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 a Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 gan roi pwerau newydd i rannu gwybodaeth sy'n ymwneud â'r cymwysterau a enillir gan fyfyrwyr a chyrchfannau myfyrwyr ar ôl iddynt orffen eu hastudiaethau. Bydd y pwerau newydd hyn yn helpu i gefnogi'r gwaith o ddatblygu mesurau perfformiad, drwy wella'r wybodaeth am ddeilliannau dysgwyr a gwella'r tryloywder o ran sut y caiff yr wybodaeth hon ei defnyddio.

Rydym yn cyflwyno dwy set o reoliadau:

- Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Fyfyrwyr) (Cymru) 2017
- Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Gyrchfannau) (Gweithgareddau Rhagnodedig) (Cymru) 2017

Bydd y rheoliadau hyn yn caniatáu i Lywodraeth Cymru rannu'r data y mae'n eu casglu eisoes ar gyrhaeddiad dysgwyr unigol (gan sefydliadau dyfarnu) a chyrchfannau (o sawl ffynhonnell) gyda darparwyr dysgu ar lefel dysgwyr cyn eu cyhoeddi yn eu crynswth.

Bydd y rheoliadau newydd yn cael effaith ddiwedd mis Hydref 2017. Byddant yn ymestyn pwerau presennol Gweinidogion Cymru o ran disgyblion ysgol fel eu bod yn cynnwys dysgwyr mewn sefydliadau addysg bellach. Byddant yn cynnwys dysgwyr yng Nghymru sy'n 16 oed a throsodd.

## Cam 2. Dadansoddi’r effaith

Bwriedir i'r rheoliadau newydd ehangu defnydd Llywodraeth Cymru o ddata i fesur a gwella deilliannau dysgwyr. Yn ogystal â galluogi darparwyr dysgu i wirio eu data cyn eu cyhoeddi, bydd y rheoliadau hefyd yn helpu i gynyddu hyder yn gyffredinol mewn gwybodaeth am berfformiad a gaiff ei chyhoeddi. Bydd hefyd yn helpu darparwyr i wella deilliannau dysgwyr, gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar wybodaeth am ba ddarpariaeth i'w chynnig, ac i roi cyngor gyrfaol priodol drwy gael gwell dealltwriaeth o'r deilliannau a gyflawnir gan eu dysgwyr.

Dros amser, rhagwelir y bydd rhannu data am ddeilliannau dysgwyr yn cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc yng Nghymru (er enghraifft drwy wella argaeledd cyrsiau sy'n fwy tebygol o arwain at gyrchfannau cadarnhaol). Mae defnyddio data'n effeithiol i ddilyn deilliannau dysgwyr ac i ddarganfod lle i gynnig cymorth ychwanegol yn rhan allweddol o agenda Llywodraeth Cymru i hyrwyddo cyfle economaidd i bawb. Bydd ein dull newydd, mwy cynhwysfawr o fesur deilliannau ôl-16 yn golygu y bydd modd dilyn a dadansoddi llwybrau dysgwyr drwy'r system addysg (er enghraifft, mesur deilliannau ôl-16 ar gyfer dysgwyr a oedd yn gymwys am brydau ysgol am ddim neu a oedd yn blant a oedd yn derbyn gofal). Bydd y rhannu data a ganiateir o dan y rheoliadau hyn yn galluogi darparwyr dysgu i werthuso pa mor effeithiol yw eu darpariaeth eu hunain wrth sicrhau deilliannau cadarnhaol i ddysgwyr.

Nid oes unrhyw effaith uniongyrchol ar unigolion ifanc, gan na fydd y rheoliadau'n effeithio ar benderfyniadau am ddysgwyr unigol na'u deilliannau. O ganlyniad i hynny, nid ydym wedi ymgynghori'n benodol â phlant a phobl ifanc. Fodd bynnag, o safbwynt Cymru gyfan, rydym yn rhagweld effaith gadarnhaol ar bobl ifanc, gan y bydd y pwerau newydd i rannu gwybodaeth yn helpu i wella cywirdeb a thryloywder y data ar ddeilliannau dysgwyr addysg bellach, ynghyd â'r ffordd y cânt eu defnyddio. Dylai hyn yn ei dro helpu pobl ifanc i wneud dewisiadau mwy gwybodus ynghylch y llwybr dysgu i'w ddewis.

Nid ydym wedi nodi unrhyw effaith negyddol ar bobl ifanc.

## Cam 3. Sut mae eich darn o waith yn cefnogi ac yn hyrwyddo hawliau plant?

Nid yw'r polisi hwn yn ymwneud yn uniongyrchol ag erthyglau CCUHP, ond mae'r erthyglau canlynol yn berthnasol yn anuniongyrchol:

- **Erthygl 3:** Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio at yr hyn sydd orau i bob plentyn (bydd y rheoliadau yn gwella'r wybodaeth am ddeilliannau dysgwyr ac yn helpu darparwyr dysgu i gynllunio a chydweithio er mwyn darparu cyfleoedd dysgu priodol); a
- **Erthygl 23:** Dylai plant sydd ag anabledd o unrhyw fath gael gofal arbennig a chefnogaeth fel y gallant fyw bywyd llawn ac annibynnol (bydd y rheoliadau yn gwella'r wybodaeth sydd ar gael am ddeilliannau ar gyfer dysgwyr sydd ag anableddau ac anawsterau dysgu).
- **Erthyglau 28 a 29:** Mae gan blant yr hawl i addysg. Dylai addysg ddatblygu personoliaeth, doniau a gallu pob plentyn yn llawn.

## Cam 4. Cefnogi'r Gweinidog a phenderfyniad y Gweinidog

Wrth ddatblygu'r polisi hwn a chynnal yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, nid ydym wedi nodi unrhyw wrthdaro ag erthyglau'r CCUHP nac unrhyw effaith negyddol ar blant a phobl ifanc. Yn y pen draw, diben y rheoliadau yw gwella ansawdd y cyfleoedd dysgu sydd ar gael i bobl ifanc, drwy wella'r gwaith o fonitro deilliannau dysgwyr. Byddant hefyd yn helpu i sicrhau bod gwell gwybodaeth ar gael i bobl ifanc er mwyn llywio eu penderfyniadau o ran darparwyr dysgu a chyrsiau.

Ceisiwyd cydsyniad Gweinidogol drwy gydol y rhaglen waith. Roedd y cyngor a roddwyd i Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes yn dilyn dadansoddi ymatebion yr ymgynghoriad yn cadarnhau bod Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn cael ei gynnal fel rhan o'r rhaglen waith.

## Cam 5. Cofnodi a chyhoeddi'r canlyniad

Nid ydym wedi cynnal unrhyw ddadansoddiad manylach gan nad yw'r rheoliadau'n cael effaith uniongyrchol ar blant neu bobl ifanc fel unigolion. Ni nodwyd unrhyw effaith negyddol yn ein hymgynghoriad ar y rheoliadau. Nodwyd effaith gadarnhaol bosib yn yr ymgynghoriad, drwy wella argaeledd data am ddeilliannau pobl ifanc sydd ag anableddau ac anghenion dysgu ychwanegol. Mae gwybodaeth am yr ymgynghoriad i'w gweld drwy ddilyn y ddolen isod:

https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/rheoliadau-ar-rannu-gwybodaeth-am-fyfyrwyr

## Cam 6. Adolygu'r darn o waith fel bo'r angen

Byddwn yn cynnal adolygiad o'r mesurau perfformiad newydd unwaith y maent ar waith yn llwyr ac wedi cael cyfle i ennill eu plwyf. Bydd hyn yn cynnwys ystyried sut mae'r rheoliadau'n gweithio, y trefniadau rhannu data yn gyffredinol, ac unrhyw ganlyniadau anfwriadol. Rydym yn amcangyfrif y bydd hyn yn digwydd tua 2021/22, gan y bydd y mesurau newydd ar waith o ddechrau 2019 ymlaen.

## Cyllidebau

| | |
|---|---|
| **A oes gan y darn o waith unrhyw ddyraniad o gyllid yn gysylltiedig ag ef?**<br><br>**Gallwch nodi faint o'r cyllid hwn a fydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer plant a phobl ifanc?**<br><br>Mae'n bwysig, lle gwneir unrhyw newidiadau i gynlluniau gwario, gan gynnwys lle gwnaed dyraniadau ychwanegol neu arbedion, fod hyn wedi cael ei asesu a'i brofi fel rhan o'r broses Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant.<br><br>**Os oes faint?**<br><br>**A oes yna wariant ychwanegol wedi cael ei nodi er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael cyfle i gyfrannu at y darn o waith ac yn cael cyfle i ddweud eu dweud?** | Dim dyraniad cyllid |
| Rhowch unrhyw fanylion:<br><br>Amherthnasol | |

## Monitro ac Adolygu

| | |
|---|---|
| **A oes angen inni fonitro / adolygu'r cynnig?** | Nac oes |
| **Os yn berthnasol: gosodwch y dyddiad adolygu** | Amherthnasol |

Anfonwch gopi o'r Asesiad hwn at cria@cymru.gsi.gov.uk at ddibenion monitro.